## Cymorth Pellach

Os cawsoch drallwysiad gwaed neu gynhyrchion gwaed cyn Medi 1991 neu os cawsoch drawsblaniad organau cyn 1992 a'ch bod yn poeni, cysylltwch â'r tîm Pryderon i drafod ymhellach.

**e-bost: concerns@wales.nhs.uk neu**
**ffôn: 029 218 36318**

*Mae'r Swyddfa Pryderon ar agor ar yr adegau canlynol:*
Dydd Llun a Dydd Mawrth 7.30am tan 4pm
Dydd Mercher 7:30am – 6pm
Dydd Iau a Dydd Gwener 7.30am i 4pm

Neu gallwch ysgrifennu atom ar y cyfeiriad canlynol:
Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Tŷ Coetir, Ffordd Maes-y-Coed, Caerdydd CF14 4HH.

Os oes gennych chi neu eich anwylyd anhwylder gwaedu neu wedi cael anhwylder gwaedu, efallai yr hoffech gysylltu â'r tîm pwrpasol sydd wedi'i leoli yn y Ganolfan Hemoffilia.

Os hoffech chi, perthynas neu anwylyd gael unrhyw gymorth yn ymwneud ag unrhyw faterion a godwyd gan yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig, cysylltwch â'r Rhwydwaith Anhwylderau Gwaedu.

e-bost: BDNW.InfectedBloodInquiry.Cav@wales.nhs.uk
neu ffôn: 0800 952 0055

Patient Experience
Profiad y Claf

GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

# Yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig

Gwybodaeth i gleifion



## Beth ydyw?

Mae’r Ymchwiliad i Waed Heintiedig yn ymchwiliad cyhoeddus annibynnol a sefydlwyd i archwilio’r amgylchiadau pan roddwyd gwaed a chynhyrchion gwaed heintiedig i ddynion, menywod a phlant a gafodd driniaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn y Deyrnas Unedig yn y 1970au a’r 1980au.

## Ar bwy yr oedd yn effeithio/ar bwy y gallai effeithio?

Unrhyw un a gafodd drallwysiad gwaed neu gynnyrch gwaed cyn Medi 1991.
Roedd y risg o gael feirws fel hepatitis C yn isel iawn.

Fodd bynnag, mae siawns fach iawn y gallai pobl fod wedi'u heintio â hepatitis C os:

- cawsoch drallwysiad gwaed neu gynhyrchion gwaed cyn Medi 1991
- cawsoch drawsblaniad organau cyn 1992

Cyn 1992 nid oedd organau a roddwyd yn cael eu sgrinio'n rheolaidd ar gyfer hepatitis C ac mae risg fach iawn y gallai organ a roddwyd gan rywun â hepatitis C ledaenu'r haint.

## A yw'n ddiogel nawr?

Ers mis Medi 1991, mae'r holl waed a roddir yn y DU yn cael ei wirio am y feirws hepatitis C. Mae pob rhoddwr gwaed yn cael ei sgrinio ar bob rhodd ac mae eu gwaed yn cael ei brofi cyn iddo gael ei anfon i ysbytai. Mae safonau diogelwch modern yn drylwyr ac wedi gwella'n aruthrol ers y digwyddiadau trasig sy'n destun yr Ymchwiliad.

## Cael prawf ar gyfer hepatitis C

Gellir cynnal prawf gwaed i weld a oes gennych yr haint. Gwneir hyn trwy brawf pigiad bys.

Gallwch hefyd gael prawf cartref am ddim gan ddefnyddio'r ddolen isod:

Ewch i: phw.referralportal.co.uk
neu sganiwch y cod QR:

Gall diagnosis cynnar a thriniaeth helpu i atal neu gyfyngu ar unrhyw ddifrod i'ch afu a helpu i sicrhau nad yw'r haint yn cael ei drosglwyddo i bobl eraill.